

Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol

Dyddiad: Dydd Llun, 29 Tachwedd 2021

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr C Evans (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, G Berry, Y Forsey and M Linton

Yn bresennol: Beverly Owen (Chief Executive), Paul Jones (Strategic Director - Environment and Sustainability), Silvia Gonzalez-Lopez (Waste Recycling Strategy Manager), Meirion Rushworth (Head of Finance), Andrew Wathan (Chief Internal Auditor), Emma Johnson (Income Collection Manager), Richard Leake (Strategic Procurement Officer), Neil Barnett (Swyddog Llywodraethu), Samantha Schanzer and Louise A Thomas (Swyddog Llywodraethu)

1 Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr John Richards, Ibrahim Hayat, Martyn Kellaway, Mark Whitcutt a Tracey Brooks

2 Datgan diddordeb

Dim.

3 Cofnodion y Cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2021

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2021 yn gofnod gwir a chywir, gyda'r cywiriad canlynol:

Cywiro dyddiadau'r cyfarfodydd i ddod yn adroddiad yr Ymgynghorydd Craffu ar gyfer y Flaenraglen Waith Flynyddol lle mae'r dyddiadau'n cael eu hailadrodd.

4 Adolygiadau Canol Blwyddyn Cynlluniau Gwasanaeth 2021/22

Gwasanaethau'r Ddinas

Gwahoddedigion:

- Paul Jones – Cyfarwyddwr Strategol – Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Y Cynghorydd Roger Jeavons - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet y Cyngor dros Wasanaethau'r Ddinas
- Silvia Gonzalez-Lopez – Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol drosolwg o'r adroddiad a nododd ei fod wedi bod yn flwyddyn anodd a bod effeithiau'r pandemig yn dal i effeithio ar y gwasanaeth. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gwyliadwriaeth gudd yn cynyddu ar dipio anghyfreithlon, bod gwaith gosod pont droed newydd ar y gweill, a gwelliannau amgylcheddol megis manau gwefru cerbydau a ffynhonnau dŵr. Teimlai'r Cyfarwyddwr Strategol eu bod ar y trywydd iawn yn fras a thynnodd sylw at y ffaith y gallai'r graff fod yn gamarweiniol oherwydd yr echelin. Nodwyd pwysigrwydd bod hyn yn dibynnu ar gyllid caledi Llywodraeth Cymru.

Dyweddod y Dirprwy Arweinydd y dylid cynnal y gostyngiad yn y defnydd o finiau gwastraff gweddilliol, cadw amseroedd archebu mor isel â phosibl a dim ciwio ar ffyrdd. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth y Pwyllgor eu bod wedi ennill Gwobr Safle CAGC y Flwyddyn. Roedd y cynnydd mewn gwastraff bwyd wedi'i gyhoeddi mewn cyfarfod Waste Savers blaenorol. Nodwyd hefyd bod y "Ffordd i Nunlle" adnabyddus bellach wedi'i hailenwi'n "Ffordd i Natur".

Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:

- Beth oedd y gyfradd wirioneddol a gyflawnwyd o ran ailgylchu, nid dim ond y gyfradd gasglu?

Dyweddod y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor mai'r mesur sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru oedd y "defnydd terfynol" ac mai'r 67% oedd y ffigur net. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau wrth y pwyllgor fod y niferoedd yn dod o adroddiad cymhleth sy'n cyfrif am yr holl wybodaeth ac yn ei rhannu, ac mai'r gyfradd wirioneddol o ailgylchu oedd y 67% a gofnodwyd.

- Ydy'r gwasanaeth yn hyderus nad oedd deunyddiau ailgylchadwy yn mynd i safleoedd tirlenwi neu wedi'u cam-ailgylchu?
- Nododd Rheolwr y Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau mai dim ond o fewn y wlad yr oedd gwastraff yn cael ei gludo a'i bod yn hyderus ei fod yn cael ei drin yn briodol gan eu bod yn ddarostyngedig i reoliadau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod potensial i gynnwys gwybodaeth fanylach ond nid oedd yn siŵr ai hwn oedd yr adroddiad cywir ar gyfer hynny.
- Beth yw canran yr aelwydydd sy'n "gwneud yn dda" wrth ailgylchu?

Nododd y Cyfarwyddwr Strategol ei bod yn ganran uchel, a bod llawer o addysg ymwybyddiaeth wedi'i wneud. Tynnwyd sylw wedyn at y ffaith bod gorfodi yn opsiwn pe bai aelwydydd yn gwrthod. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw ddata arolwg diweddar oherwydd Covid, ond roedd data anecdotaidd yn awgrymu cyfranogiad uchel a pharhaus.

- Ydy ychwanegu rhagor o gasgliadau ar gyfer eitemau y gellir eu hailgylchu yn cael ei ystyried?

Nododd y Cyfarwyddwr Strategol ei bod yn bwysig sicrhau cydbwysedd gan y dylid annog peidio â defnyddio rhai deunyddiau na ellir eu hailgylchu/anodd eu hailgylchu.

- Beth oedd yn cael ei wneud i gasglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu o ardaloedd cyhoeddus?

Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod ganddynt bortffolio rhesymol gyda busnesau ond eu bod yn dal i ddisgwyl i reoliadau busnes newid. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau fod cynlluniau'n aros i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo, o fis Ebrill 2022 o bosibl.

- Ydy'r gwasanaeth yn credu bod dyletswydd ar bob un ohonom i hyrwyddo ailgylchu a byw'n gynaliadwy?

Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol, yn enwedig fel gweision sifil, fod ganddynt ddyletswydd i hyrwyddo ailgylchu a byw'n gynaliadwy.

- Sut ydych chi'n rheoleiddio lleoliadau sy'n dewis gwastraffu bwyd yn hytrach nag ailgylchu?

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau wrth y Pwyllgor y byddai'r prif faterion yn cael sylw yn y rheoliadau sydd ar y gweill.

- Sut y gallwn sicrhau cynnydd tuag at ddyfodol diwastraff pan fydd gan gynifer o gynhyrchion ddeunyddiau na ellir eu hailgylchu?

Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at y ffaith nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros ba ddeunyddiau a ddefnyddir, dim ond Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sydd â'r pŵer hwnnw. Dim ond o fewn yr hyn y mae ganddynt y grym i'w wneud y gall y Cyngor weithio ac amlygodd y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd y pryderon hyn.

- Pam na chyflawnwyd unrhyw beth o ran datblygu Cyfleuster Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd?

Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at y ffaith bod y cynlluniau hyn wedi colli blaenoriaeth oherwydd Covid ond y byddent yn cael eu gweithredu eto, a nododd fod effaith cael yr ail safle hwnnw eisoes wedi'i weld. Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol fod angen gwneud mwy o waith i barhau i wella ond teimlai fod llawer o faterion craidd wedi cael sylw.

- Beth oedd nifer y staff oedd ar goll?

Nododd y Cyfarwyddwr Strategol nad oedd ganddynt y niferoedd diweddaraf ar gyfer Gwasanaethau'r Ddinas ond bod materion recriwtio o ran gweithwyr tymhorol ac nid o ran cyflogaeth uniongyrchol yn unig. Roedd prinder gyrwyr HGV ac arbenigwyr eraill wedi effeithio ar y maes a byddent yn parhau i wneud hynny. Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at yr her a ddaeth yn sgil hyn i reolwyr rheng flaen a'r ymdrech i gadw staff.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod cwmnïau eraill yn gallu cynnig cymhellion deniadol a oedd yn effeithio ar hwylustod recriwtio. Dywedodd y Pwyllgor y dylid hyrwyddo cynlluniau'r llywodraeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y pwyllgor eu bod yn gweithio ar lawer o gynlluniau, ond un mater pwysig hefyd oedd cadw staff.

- Beth oedd y cynlluniau ar gyfer y safle Ffordd i Natur o ran ei chadw'n lân a hyrwyddo fflora a ffawna?

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod gwirfoddolwyr cymunedol yn yr ardal. Ailadroddodd Rheolwr y Gwasanaeth Gwastraff a Glanhau eu bod yn gweithio'n agos gyda grwpiau yn yr ardal a dywedodd wrth y pwyllgor eu bod wedi sicrhau cyllid i wneud arolwg manwl ym maes bywyd gwylt.

- A ellid darparu eglurder ar eitem 2 tudalen 19 yr adolygiad o Wasanaethau'r Ddinas a phryd y byddai'n cael ei ddechrau?

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod hyn yn ymwneud â'r Tîm Budd-daliadau Tai a'i fod yn ymwneud ag integreiddio TG lle byddai eu systemau'n cael eu diweddarau a'u moderneiddio. Roedd y gwaith hwn wedi'i ohirio oherwydd gwaith a wnaed gan y tîm hwnnw, gan orfodi pwysigrwydd gwaith arall a wnaed gan y tîm a'u blaenoriaethu ar gyfer y gwaith hwn. Nid oedd yr eitem a grybwyllwyd yn rhywbeth a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar ddefnydd preswylwyr ond roedd yn optimeiddio

gwasanaeth.

- A oedd y defnydd yn cael ei fonitro ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan?

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y nifer sy'n manteisio arno yn cael ei fonitro a bod ganddynt ffigurau, ond roedd yn anodd cael ffigurau synhwyrol oherwydd y pandemig a gallu eu haddasu. Roedd y defnydd mewn meysydd parcio yn dda ac roedd gwaith yn cael ei ehangu ar wefrwyr cyflym. Tynnodd y Cyfarwyddwr Strategol sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud ar gyfer pwynt gwefru tacsis, a rhoddodd wybod i'r pwyllgor am fenter brofi ar gyfer gyrwyr tacsis i weld hyfywedd cerbyd trydan. Byddai'r gwasanaeth yn gweithio ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y pwyntiau a godwyd.

- A oedd unrhyw ddata ar blannu mwy o goed?

Nid oedd gan y Cyfarwyddwr Strategol y wybodaeth hon wrth law a byddai'n ei hanfon at aelodau'r pwyllgor pan fyddai ar gael.

- A oedd yn ymarferol gweithredu goleuadau stryd oedd yn synhwyro symudiadau?

Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd yn hyfyw o'r wybodaeth sydd ganddo a bod gosod goleuadau LED yn llawn yn brosiect mawr a oedd wedi arwain at arbed carbon ac arbed arian.

- Beth oedd diben Uned Gyflawni Burns a beth roedd wedi'i gyflawni?

Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol mai Uned Gyflawni Burns oedd â'r dasg o weithredu argymhellion yr adroddiad, fe'i sefydlwyd ym mis Ionawr ac roedd wedi dechrau symud ymlaen gydag astudiaethau a chynlluniau buddsoddi manylach. Mae ef a'r Prif Weithredwr yn mynychu cyfarfodydd gyda nhw ynghylch yr argymhellion gorsaf drenau a dulliau gwell o deithio a theithio llesol. Mae'r gwaith yn dibynnu ar gydnabyddiaeth ariannol gan bob llywodraeth, a gall gwaith yn y sector hwn gymryd amser oherwydd y gwaith dylunio manwl sydd ei angen ond roedd yn teimlo'n optimistaidd ynghylch y newid.

Teimlai'r Pwyllgor y dylai'r Aelodau fod wedi cael mwy o wybodaeth am y prosiect hwn a gofynnodd a oedd hyn yn annibynnol ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Uned Burns yn gorff annibynnol. Gofynnodd y pwyllgor am adroddiad byr ynghylch yr hyn yr oedd y Cyfarwyddwr Strategol wedi'i ddweud. Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol i fynd â'r argymhelliad hwnnw yn ôl.

Adfywio, Gwella a Thai

Gwahoddedigion:

- **Y Cynghorydd Jane Mudd – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Dwf Economaidd a Buddsoddi**
- **Y Cynghorydd Jason Hughes - Aelod y Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy**
- **Beverly Owen - Prif Weithredwr**

Yn gyntaf, ymddiheurodd y Prif Weithredwr ar ran y Pennaeth Adfywio, Buddsoddi a Thai Dros Dro, oedd yn sâl, ac yna rhoddodd drosolwg o'r adroddiad. Roedd y gwasanaeth tai wedi bod yn arloesol wrth ddarparu llety dros dro, a thynnodd sylw at yr 20 uned a adeiladwyd yn Charles Street. Bu rhywfaint o oedi wrth gyflwyno hybiau cymdogaeth oherwydd Covid, ond roeddent wrth galon gwaith y Cyngor yn ystod y pandemig, gan dynnu sylw at y parseli bwyd a'r gwasanaethau eraill a ddarparwyd drwy gydol y pandemig.

Dywedwyd bod llawer o fentrau adfywio fel y farchnad, Tŵr y Siartwyr a'r prosiect hamdden yn bwrw yn eu blaen.

Nododd y Prif Swyddog Gweithredol fod y Cyngor a'i bartneriaid wedi dyfarnu bron 3000 o grantiau gwerth cyfanswm o £6m i fusnesau yn ystod Covid, gyda dros 1000 o fusnesau'n cael cynnig cymorth a chyngor. Roedd perfformiad wedi'i ohirio ychydig ond roedd wedi'i gyflymu eto ers mis Awst. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn bartner cyflawni allweddol o fewn rhaglenni sgiliau React a Kickstart a bod ganddo tua 60 o leoliadau o fewn y cynlluniau hynny i helpu pobl i ddechredu i'r gwaith. Cydnabu Arweinydd y Cyngor lwyddiant ysgubol rhai perfformiadau o ystyried heriau a chyfyngiadau'r pandemig.

Tynnodd Arweinydd y Cyngor sylw at y ffaith bod y prosiectau adfywio ar y trywydd iawn ac yn symud yn eu blaen yn dda, a theimlent fod chwarter cyntaf 2022 yn addawol. Tynnwyd sylw at y pwysau ar y gwasanaeth tai oherwydd newidiadau ym mholisiau Llywodraeth Cymru a bod y berthynas gydweithredol â phartneriaid ac asiantaethau wedi cryfhau. Roedd gwaith hefyd yn cael ei wneud i gasglu gwybodaeth newydd am y sector rhent preifat. Yna gofynnodd Arweinydd y Cyngor i'r Aelodau godi ymwybyddiaeth o fideo newydd a luniwyd ynglŷn â grantiau i fusnesau. Nododd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy y cynnydd sylweddol a wnaed er gwaethaf y pandemig, a thynnodd sylw at y ffaith bod targedau lleihau carbon ar gyfer 2022 eisoes wedi'u cyflawni. Hysbyswyd yr Aelodau wedyn bod y gwaith a wnaed wedi cael ei gydnabod yn y cyfryngau a'u bod wedi ennill gwobr genedlaethol fel sefydliad.

Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:

- Oedd gan Gam Gweithredu 2 ar dudalen 26 yr agenda – "**Datblygu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**" amserlen rhy araf?

Eglurodd Arweinydd y Cyngor nad oedd y cynllun Datblygu Strategol yn gynllun busnes nac yn strategaeth ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'i fod mewn gwirionedd yn ymwneud â'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn creu cynllun ar gyfer defnydd tir. Roedd hwn yn un cyfrifoldeb a roddwyd i'r rhanbarth gan y Cydbwyllgor Corfforaethol ac roedd yr amserlenni'n unol â'r hyn y dylent fod. Yna gofynnodd yr Aelodau ai dim ond dau brosiect oedd yn fyw ar hyn o bryd. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod nifer o brosiectau ar y gweill gan gynnwys atyniad Gwifrau Gwib, cronfa Tai Strategol a dosbarthu dyraniadau cyllid ymhlith 11 safle ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer tai i fynd i'r afael â'r bwlch hyfywedd.

- Beth yw elfennau'r cynllun yng Ngham gweithredu 1 ar dudalen 21 - "**Cefnogi'r gwaith o gwblhau Cynllun Peilot Ynni Ardal Leol (CYAL) a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu datgarboneiddio ar gyfer Dinas Casnewydd mewn cydweithrediad â Thîm Polisi a Phartneriaeth CDC a rhanddeiliaid allanol**" ac a yw hyn yn gynllun Casnewydd ehangach?

Eglurodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru yn gyrru nifer o gynlluniau ynni ardal leol yn eu blaen ac mai yng Nghasnewydd roedd y peilot ar gyfer hyn. Ers i Arweinydd y Cyngor ddatgan yr Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol yn y Cyngor, mae'r cynllun Newid yn yr Hinsawdd i fynd i ymgynghoriad ac mae gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaeth Casnewydd yn Un. Nodwyd wedyn bod llinellau sylfaen da o wybodaeth ar gael. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai dull mwy cydlynol o ymdrin â'r gwaith ynni a chynaliadwyedd yn cael ei roi ar waith ledled y Cyngor wrth i'r strwythur newydd ymwreiddio.

- Gofynnodd y pwyllgor beth roeddent yn gobeithio ei gyflawni erbyn 2035 a 2050 a beth yw ystyr datgarboneiddio?

Cytunodd y Prif Swyddog Gweithredol ei fod yn ymgymieriad mawr ond teimlai mai'r hyn y dylid ei wneud oedd adfyfrio ar rôl y Cyngor a mynd i'r afael â'r realiti hinsawdd newydd. Yna gofynnodd yr Aelodau a oedd y Prif Weithredwr yn teimlo y byddai seminar pob aelod yn fuddiol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy wrth y Pwyllgor eu bod yn ymgynghori a'u bod yn edrych ar hyfforddiant i bob cynghorydd ynglŷn â'r agenda amgylcheddol. Nododd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy fod agenda 2030 yn edrych yn benodol ar fod yn garbon niwtral o fewn y Cyngor, a bod 2050 ar gyfer bod yn garbon niwtral ar draws y ddinas.

- A oedd unrhyw ddiwyddiadau wedi'u cynllunio?

Dywedodd y Prif Weithredwr fod diwyddiadau'n rhan allweddol o dwf unrhyw ddinas yn y dyfodol a'u bod mewn deialog â Llywodraeth Cymru a'r uned ddiwyddiadau i ddatblygu rhaglen o ddiwyddiadau yn raddol.

- Beth oedd y datblygiadau o ran helpu pobl ddigartref a ble y gallent fynd am gymorth a gwybodaeth?

Tynnodd Arweinydd y Cyngor sylw at y ffaith mai dyma un o'r meysydd a'r canlyniadau llwyddiannus yn ystod y pandemig gan eu bod wedi rhoi 1000 o unedau teuluol mewn llety dros dro, wedi defnyddio 40 uned arall o lety dros dro sy'n cyfateb i 140 o welyau, gyda chyfanswm o 350 o welyau mewn llety dros dro, wedi cael archebion bloc mewn llety Gwely a Brechwast, yn rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru ac yn gweithio tuag at dai modiwlaid carbon niwtral ym maes parcio Hill Street. Sicraodd Arweinydd y Cyngor y Pwyllgor fod cyfleusterau allgymorth ar gyfer preswylwyr digartref i gynnig cymorth a chefnogaeth.

- Pa mor ecogyfeillgar fyddai'r ganolfan hamdden newydd?

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor y byddai lefelau uchel o inswleiddio, to gwyrdd, gwell cysylltedd teithio llesol a beicio ac roedd y tîm ynni yn gweithio ar ddull datgarboneiddio.

- A ellid ymestyn oriau er mwyn i gymorth fod ar gael i'r digartref?

Roedd Arweinydd y Cyngor yn cydnabod bod problemau sylfaenol o ran strwythur cymdeithas sydd hefyd yn effeithio ar fywydau'r bobl hyn a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddent yn gwneud yr hyn y gallent ei wneud.

- A ellid cyflwyno diwyddiad beicio yn y ddinas i hyrwyddo teithio llesol?

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy wrth y Pwyllgor fod cynlluniau ar y gweill i ehangu'r arlwy beicio ledled y ddinas, ac y gallai fynd â'r cais hwn yn ôl i'r tîm i ymchwilio iddo.

- A yw eiddo'n cael ei arolygu ac a yw'n cyrraedd y safon ar gyfer rhentwyr preifat?

Sicraodd Arweinydd y Cyngor y Pwyllgor fod llety yn y sector rhent preifat yn ddarostyngedig i'r System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai sy'n cynnig amddiffyniad i denantiaid, ac wrth weithio ar hyn, mae'r tîm anghenion tai yn gweithio'n agos gyda thîm iechyd yr amgylchedd.

- Pryd rydym yn disgwyl i'r gwaith atgyweirio i'r Bont Gludo gael ei gwblhau?

Dyweddod y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor fod y contract wedi'i roi yn ôl i dendr gan fod contractwyr wedi methu ac y byddai'n fuddiol dod yn ôl ar ôl i'r broses dendro gael ei chwblhau.

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr ac Aelod y Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy am eu presenoldeb.

Cyllid

Gwahoddedigion:

- **Meirion Rushworth - Pennaeth Cyllid**
- **Robert Green – Pennaeth Cyllid Cynorthwyol**
- **Emma Johnson – Rheolwr Casglu Incwm**
- **Andrew Wathan - Prif Archwilydd Mewnol**
- **Richard Leake – Rheolwr Gwasanaeth Caffael a Thaliadau**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyllid drosolwg o'r adroddiad a thynnodd sylw at y ddau amcan gyda mwy o faterion nag y byddid yn eu dymuno; roedd yr amcan caffael yn brawf aflwyddiannus, ac amcan y dreth gyngor yn broblem hirdymor. Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Cyllid yn hyderus o ddatrys yr amcan treth gyngor ond nododd ei fod yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Roedd yr holl amcanion eraill ar y trywydd iawn ac roedd perfformiad yn dda ar y cyfan. Tynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyllid sylw at y ffaith y byddai'r dreth gyngor bob amser yn goch ac roedd problemau ynghylch deall diben y dangosydd perfformiad.

Teimlai'r Pennaeth Cyllid, er bod y pandemig wedi achosi problem o bosibl, nad oedd y maes wedi cael problem fawr yn lleol a nododd fod y tîm refeniw yn gweithio'n rhagweithiol ac yn gydymdeimladol ac yn cyfeirio trigolion at wasanaethau perthnasol.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Ydy nifer yr ôl-ddyledion a ddangosir ar dudalen 20 yr adroddiad Cyllid yn 17.6% wedi'u casglu neu'n gyfredol?

Dyweddod y Rheolwr Casglu Incwm wrth y pwyllgor mai canran yr ôl-ddyledion oedd yn weddill ym mis Mawrth 2021 oedd wedi ei chasglu ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd canran y bobl sydd ag ôl-ddyledion presennol yn yr adroddiad.

Dyweddod y Rheolwr Casglu Incwm wrth y pwyllgor nad oedd hyn wedi'i gynnwys ac y byddai'n cael ei adrodd fel canran o'r swm gwirioneddol sy'n cael ei gasglu yn hytrach na nifer yr aelwydydd. Yna gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch beth oedd canran wirioneddol y cyfanswm. Nododd y Rheolwr Casglu Incwm mai'r ganran wirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn oedd 95.4%. Tynnodd y Pennaeth Cyllid sylw at y ffaith mai swm y dreth gyngor a gasglwyd mewn gwirionedd oedd yma, ac yna nododd na chyflawnir y targedau gwirioneddol fyth yn ystod y flwyddyn ei hun, ond cesglir yr ôl-ddyledion hynny yn y blynyddoedd dilynol, a chyflawnir y targed fel lleiafswm.

- Sut oedd y fenter Lle i Anadlu yn mynd?

Nododd y Rheolwr Casglu Incwm bod pethau wedi dechrau'n araf pan gafodd ei chyflwyno ym mis Mai ond ei fod wedi cynyddu. Derbyniwyd cyfanswm o 50 o geisiadau ers hynny. Teimlai'r Rheolwr Casglu Incwm bod hyn yn siomedig gan mai cyfyng oedd yr effaith, a'u bod mewn trafodaethau gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac nad ydynt yn defnyddio'r Lle i Anadlu ac roedd yn well ganddynt lwybr anffurfiol.

Cynghorwyd bod y fenter hon wedi creu llawer o e-byst a biwrocratiaeth y tu ôl i'r llenni ac wrth edrych ar y data, nid oedd unrhyw drefniadau llwyddiannus wedi'u gwneud ond roedd gan y 50 achos 400-500 o negeseuon e-bost. Teimlai'r Rheolwr Casglu Incwm fod angen gwella a mireinio'r system.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd ffordd o fwydo hyn yn ôl. Dywedodd y Rheolwr Casglu Incwm wrth y pwyllgor ei fod yn fenter genedlaethol nad oedd yn agored i ymgynghori, ond roedd sefydliadau proffesiynol mewn meysydd cysylltiedig yn trosglwyddo gwybodaeth i adrannau priodol y llywodraeth at ddibenion mireinio. Mynegodd y Rheolwr Casglu Incwm ei bod yn fenter dda mewn egwyddor ond ei fod yn llawer o waith i'r rhai â dyledion cymhleth. Nododd y Pennaeth Cyllid y gallai fod credydwy'r eraill lle mae'r llwybr ffurfiol hwn yn offeryn defnyddiol a bod y tîm referniw yn gweithio'n gydymdeimladol ac yn broffesiynol ac felly nid oes angen iddynt ddychwelyd i'r system ffurfiol bob amser.

- A fyddai'r hyfforddiant y cyfeirir ato ar dudalen 78 yr adroddiad yn gallu cael ei ddarparu mewn modd mwy amserol.

Nododd y Prif Swyddog Mewnol nad oedd hyn wedi gallu bod yn flaenoriaeth oherwydd y pandemig, ond bod hyfforddiant wedi'i ddrafftio a'i fod yn aros am brofion ac adolygu. Dywedodd y Prif Swyddog Mewnol wrth y pwyllgor y byddai'r rhaglen hyfforddi hon yn cael ei diweddarau, ei chwblhau a'i chyflwyno i'r aelodau cyn diwedd mis Mawrth 2022.

- Holodd yr Aelodau a oedd busnesau'n talu'r Dreth Gyngor a sut roedd y Cyngor yn ymwneud â chasglu ardrethi busnes/y dreth gyngor.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod busnesau'n talu ardrethi busnes nad oedd yn incwm cyngor ac oedd yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Yna gofynnodd yr Aelodau a oedd casglu ardrethi busnes yn rhan o'r grant cymorth. Nododd y Pennaeth Cyllid fod y Cyngor yn cael ffi weinyddol fach i gasglu'r ardrethi busnes a bod Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i ariannu'r mecanwaith ond nid oedd cysylltiad uniongyrchol rhwng yr hyn a gesglir a'r hyn a roddir yn ôl mewn grant.

- A yw cyswllt wyneb yn wyneb wedi'i gynnal?

Dywedodd y Rheolwr Casglu Incwm wrth y pwyllgor fod y gwasanaethau hyn bellach yn cael eu darparu yng Nglan yr Afon gan y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid.

Casgliadau – Sylwadau i'r Cabinet

Roedd y Pwyllgor yn dymuno gwneud y sylwadau canlynol i'r Cabinet:

Gwasanaethau'r Ddinas

- Yn gyntaf, roedd y Pwyllgor am ddiolch i'r Aelod Cabinet a Phennaeth y Gwasanaeth am eu presenoldeb ac roedden nhw am ddweud bod gan yr holl swyddogion a staff hawl i fod yn falch o'u gwaith yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwyd wedi bod o ansawdd dda drwy gydol y pandemig. Canmolodd y Pwyllgor ansawdd yr adroddiad hefyd.
- Hoffai'r Pwyllgor ofyn i'r data ynghylch plannu coed gael ei ddarparu.
- Cynigiodd y Pwyllgor y dylid trefnu Seminar i Bob Aelod mewn perthynas ag Adroddiad Burns a'r Grŵp Cyflawni mewn perthynas â'r 58 o argymhellion a wnaed gan Burns.

- Pan fydd y data ar gael, hoffai'r Aelodau hefyd ofyn am adroddiad diweddar ar y nifer sy'n manteisio ar y cynllun tacsï "rhowch gynnig arni cyn prynu".

Adfywio, Buddsoddi a Thai

- Yn gyntaf, roedd y Pwyllgor am ddiolch i'r Aelod Cabinet a Phennaeth y Gwasanaeth am eu presenoldeb ac roedden nhw am ddweud bodd gan yr holl swyddogion a staff hawl i fod yn falch o'u gwaith yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwyd wedi bod o ansawdd dda drwy gydol y pandemig. Roedd y Pwyllgor hefyd yn hapus ag ansawdd yr adroddiad.
- Holodd y Pwyllgor am y posibilrwydd o drefnu Seminar Pob Aelod i drafod y Cynllun Ynni Ardal Leol.
- Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am gynlluniau i greu calendr digwyddiadau ar gyfer y ddinas. Holwyd am y posibilrwydd o gynnal digwyddiad beicio ar ddydd Sul yn yr Haf i helpu i hyrwyddo Teithio Llesol.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar yr hyn y mae'r "pwerau nad ydynt yn gyfreithiol i ysgogi gweithredu a gwelliannau gan berchnogion" yn y sylwebaeth ar dudalen 29 yr agenda.

Cyllid

- Roedd y Pwyllgor am ddiolch i Bennaeth y Gwasanaeth a'i dîm am ddod i'r cyfarfod, a gofynnodd eu bod yn diolch ar eu rhan i'r tîm Cyllid cyfan am eu gwaith caled parhaus yn ystod y pandemig. Roedd yr Aelodau'n falch o'r wybodaeth yn yr adroddiad ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau nac argymhellion pellach i'w rhoi i'r gwasanaeth.

5 Adroddiad Cynghorydd Craffu

Gwahoddedig:

- Neil Barnett – Ymgynghorydd Craffu

a) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y Flaenraglen Waith a soniodd wrth y Pwyllgor am y pynciau i'w trafod yn y ddau gyfarfod pwyllgor nesaf:

Dydd Llun 13 Tachwedd 2021 am 4pm, eitemau'r agenda; -

- Strategaeth Twf Economaidd a Chynllun Adfer Economaidd – Argymhellion Monitro

Dydd Llun 24 Ionawr 2022 am 4pm, eitemau'r agenda; -

- Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2022-23

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm